


**14/10/2025**

## Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd

Byddwn yn dathlu diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd yr Urdd ar ddydd Mawrth y 14eg o Hydref. Bydd Mistar Urdd ei hun yn galw heibio'r ysgol yn y bore! Ar y diwrnod gall y plant ddewis:

- gwisgo mewn lliwiau coch, gwyn neu wyrdd

Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1 y plentyn tuag at Gylch Ystwyth yr Urdd

## *Coch, Gwyn a Gwyrdd Day*

*We will celebrate the Urdd's Red, White and Green day on Tuesday the 14th of October. Mistar Urdd himself will be calling by the school during the morning!*
*On the day the children can choose to:*

- *wear red, white or green colours*

*We kindly ask for a donation of £1 per child towards the Urdd's Ystwyth Area*

---




**15/10/2025**

## Diwrnod Shwmae Su'mae

Byddwn yn dathlu Diwrnod Shwmae Su'mae ar ddydd Mercher y 15fed o Hydref eleni. Byddwn yn cychwyn pob sgwrs gyda 'Shwmae!' Beth am i chi wneud hefyd?

Bydd **Clwb yr Urdd** yn cychwyn ar y diwrnod hwn hefyd, gan ddechrau gyda Blynyddoedd 1, 3 a 4 wythnos hon. Bydd y Clwb yn parhau i flynyddoedd 2, 5 a 6 yr wythnos ganlynol, ac am-yn-ail wythnos i bawb wedi'r gwyliau hanner tymor yn ystod mis Tachwedd. Cadwch lygad ar y Calendr Hanner Tymor er mwyn eich hatgoffa o'r dyddiadau cywir.

## *Shwmae Su'mae Day*

*We'll be celebrating Shwmae Su'mae Day on Wednesday, the 15th of October this year. We'll be starting every conversation with "Shwmae!" — why don't you do the same?*

*The Urdd Club will also start on this day, beginning with Years 1, 3, and 4 this week. The club will continue for Years 2, 5, and 6 the following week, and then will run every other week for everyone after the half-term holidays during November.*
*Keep an eye on the Half-Term Calendar to remind you of the correct dates.*

---

**16/10/2025**

## Blwyddyn 6 i Ysgol Penweddig

Bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn mynd ar eu hail ymweliad o'r flwyddyn ag Ysgol Penweddig ar ddydd Iau yr 16eg o Hydref. Byddwn yn dilyn yr un trefniadau â thro diwethaf – cofiwch fod gennych ffurflen Forms i'w llenwi cyn gynted â phosib. (Llythyr wedi ei rannu gan Penweddig 08/10/25)
Diolch

## *Year 6 to Ysgol Penweddig*

*Year 6 pupils will be making their second visit of the year to Ysgol Penweddig on Thursday, the 16th of October.*
*We'll be following the same arrangements as last time – please remember to complete the Forms document as soon as possible (Letter shared by Penweddig 08/10/25)*
*Thank you.*

---



17/10/2025
& 20/10/2025

## Cogurdd a Poburdd

Rydym eisoes wedi rhannu gwybodaeth gyda rhieni blynyddoedd 4, 5 a 6 am Cogurdd a Poburdd, sef cystadlaethau coginio a phobi yr Urdd ar gyfer eleni (gwiriwch eich ebyst o 07/10/25)

Cofiwch fod angen cofrestru gyda Mrs Wendy James erbyn dydd Mercher os ydych am gymryd rhan.

## *Cogurdd and Poburdd*

*We have already shared information with the parents of Years 4, 5, and 6 about Cogurdd and Poburdd, which are the Urdd's cooking and baking competitions for this year (please check your emails from 07/10/25)*

*Please remember to register with Mrs Wendy James by Wednesday if you wish to take part.*

---



17/10/2025
& 24/10/2025

## Disgos Calan Gaeaf

Mae yna ddau ddisgo wedi eu trefnu ar gyfer Calan Gaeaf.

Bydd y cyntaf yn cael ei drefnu gan y Cylch Meithrin ar gyfer y plant o oedran cyn-ysgol hyd at flwyddyn 2 yn digwydd ar brynhawn dydd Gwener 17$^{eg}$ o Hydref o 4-5yh yn neuadd yr ysgol. Bydd angen rhieni yn bresennol gyda'r plant.

Bydd yr ail ddisgo yn cael ei drefnu gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol ar gyfer plant blynyddoedd 3,4,5a6 ar ddiwrnod olaf yr hanner tymor sef y 24$^{ain}$ o Hydref rhwng 3:30 a 5:00. Does dim angen rhieni yn bresennol ar gyfer y disgo hwn.

## *Halloween Discos*

*Two discos have been arranged for Halloween.*

*The first will be organised by the Cylch Meithrin for pre-school children up to Year 2, and will take place on the afternoon of Friday, 17$^{th}$ October, from 4:00–5:00pm in the school hall. Parents will need to stay with their children for this event.*

*The second disco will be organised by the school's Parent-Teacher Association (PTA) for Years 3, 4, 5, and 6. It will take place on the last day of the half term, Friday 24$^{th}$ October, from 3:30–5:00pm. Parents do not need to stay for this disco.*

---



## Cyfle i drafod cynnydd eich plentyn

Ar brynhawniau dydd Llun a Mawrth, yr 20$^{fed}$ a'r 21$^{ain}$ o Hydref, mi fydd yr ysgol ar agor i rieni a gwarcheidwaid i ddod i drafod cynnydd eu plant gyda staff yr ysgol. Byddwch yn derbyn dolen i MS Bookings heddiw er mwyn trefnu amser cyfleus.

## *An opportunity to discuss your child's progress*

*On the afternoons of Monday and Tuesday, the 20$^{th}$ and 21$^{st}$ of October, the school will be open for parents and guardians to come and discuss their children's progress with the school staff. You will receive a link to MS Bookings today in order to arrange a convenient time.*

---




## Gwybodaeth ychwanegol

Atodaf wybodaeth ychwanegol ar ddiwedd y llythyr hwn – maent yn bosteri am ddigwyddiadau lleol amrywiol i'ch cynorthwyo chi fel rhieni a gofalwyr gyda gweithgareddau.

## *Additional information*

*I am attaching additional information at the end of this letter - they are posters about various local events to assist you as parents and carers with activities.*

---

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram – Ysgol Gymraeg


Instagram – C.Rh.A

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – P.T.A




## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r 🖰 Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the 🖰 Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

---

### Dyddiadau pwysig Tymor yr hydref:

- Nosweithiau Agored : Hydref 20fed ac 21ain
- Diwrnod olaf yr hanner tymor hwn : Hydref 24ain
- Ffair Nadolig y G.Rh.A : Tachwedd 27ain
- Cyngerdd Nadolig : Rhagfyr 11eg

### *Autumn term important dates:*

- *Open Evenings : October 20th and 21st*
- *Last day of this half term : October 24th*
- *PTA Christmas Fayre : November 27th*
- *Christmas Concert : December 11th*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**10/10/2025**
🖰 www.ysgolgymraeg.cymru


















@YrYsgolGymraeg
Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
Prifathro / *Headteacher:* Mr Gareth L James
01970 617613